**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**
**11/04/2024**

**Yn bresennol:**

**Aelodau â Phleidlais -** Y Cynghorwyr:- Nicola Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) a Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais) –** Yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam) a Gwenllian Roberts (Grŵp Llandrillo Menai).

**Prif Swyddogion –** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Awdurdod Lletya –** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Uchelgais Gogledd Cymru** - Alwen Williams (Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf) a Kirrie Roberts (Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol).

**Eraill yn bresennol** - Yr Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor) a Jonathan Cawley (Parc Cenedlaethol Eryri)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD Ethol y Cynghorydd Mark Pritchard yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor ar gyfer 2024/25.**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, penderfynwyd ethol y Cynghorydd Charlie McCoubrey yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD Ethol y Cynghorydd Charlie McCoubrey yn Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor ar gyfer 2024/25.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda'r Cynghorydd Nigel Williams yn dirprwyo.
- Y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda'r Cynghorydd Nicola Roberts yn dirprwyo.
- Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) gyda Gwenllian Roberts yn dirprwyo.
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 6. CYLCH GORCHWYL AR GYFER YR IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**PENDERFYNIAD**

**Mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Rhaid i'r Is-bwyllgor weithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fel y'u mabwysiadir gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac a nodir yn y Cylch Gorchwyl – dyma'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r telerau hyn gael eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl ffurfiol ar gyfer yr Is-bwyllgor, sydd eisoes wedi cael eu mabwysiadu gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Eglurwyd bod y ddogfen yn adlewyrchu'n sylweddol Cylch Gorchwyl Bwrdd Uchelgais Economaidd blaenorol Gogledd Cymru. Nodwyd y bwriedir parhau gyda'r trefniadau blaenorol gan egluro mai'r unig ychwanegiad i'r Cylch Gorchwyl yw'r pŵer statudol sydd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Is-bwyllgor hwn dros les economaidd y Rhanbarth, gan nodi bydd manylder ar y dyletswyddau hyn yn cael eu hychwanegu maes o law.

## 7. CYFETHOL I'R IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

**PENDERFYNWYD**

**Gohirio trafodaeth a phenderfyniad ar y mater hwn nes y Cyfarfod nesaf.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar Fawrth 21 cytunodd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd y bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cynnwys chwe Aelod Cyngor Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd, ynghyd a chynrychiolydd o bob un o'r cyrff hynny a gynrychiolwyd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gael ei benodi fel aelodau cyfethol dibleidlais.

**TRAFODAETH**

Ystyriwyd gohirio'r drafodaeth ar Gyfethol aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i'r Is-bwyllgor hwn, ynghyd â'r penderfyniad ar y mater, i'r cyfarfod nesaf. Eglurwyd bydd hyn yn rhoi cyfle i swyddogion wirio mater technegol o fewn y rheoliadau cyfethol, cyn dod a chynnig am aelod i sylw'r Is-bwyllgor.

## 8. BLAEN RAGLEN WAITH YR IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD**

**Cytuno ar Flaen Raglen Waith**

**Cadarnhau y gall y Cadeirydd ddiwygio'r Cynllun i ystyried amrywiadau mewn amserlennu gwaith yn amodol ar y Cynllun yn cael ei ddwyn i'r cyfarfod canlynol o'r Is-bwyllgor i gael ei gytuno.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r Blaen Raglen Waith yn nodi'r calendr cyfarfodydd, ac yn ychwanegol yn amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud gan yr Is-bwyllgor yn dilyn ei swyddogaethau dirprwyedig fel y nodir yn ei gylch gorchwyl.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod y Blaen Raglen Waith yn nodi'r holl brosiectau sydd wedi cael eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ar hyn o bryd. Nodwyd bydd achosion busnes ychwanegol yn cael eu hychwanegu i'r Blaen Raglen Waith pan fyddai'n amserol i wneud hynny.

## 9. PENODI SRO Y CYNLLUN TWF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod yr Is-bwyllgor yn penodi Dylan Williams (Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn) fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) newydd ar gyfer y Cynllun Twf.**
2. **Bod yr Is-bwyllgor yn cytuno i adolygu'r trefniadau ymhen 12 mis.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cadarnhau penodiad SRO y Cynllun Twf yn unol â'r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Chwefror 2025, i wahanu rôl yr SRO a'r Cyfarwyddwr Portffolio mewn ymateb i'r gofyniad newydd gan y Llywodraeth.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr Eitem hon yn deillio o gyfarfod olaf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ble cytunwyd i wahaniaethu swyddi'r Cyfarwyddwr Portffolio a'r Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO). Nodwyd bod cais wedi ei wneud bryd hynny am enwebiad gan Brif Swyddogion yr Awdurdodau Lleol er mwyn gallu penodi Uwch Berchennog Cyfrifol y Cynllun Twf.

Cadarnhawyd bod Dylan Williams, Prif Swyddog Cyngor Sir Ynys Môn, wedi cael ei enwebu i gyflawni rôl Uwch Berchennog Cyfrifol y Cynllun Twf. Nodwyd bod yr adroddiad yn gofyn a yw'r Is-bwyllgor yn awyddus i gymeradwyo'r enwebiad hwn, gyda'r cadarnhad bydd y penodiad yn cael ei adolygu pob 12 mis.

## 10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 10 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

## 11. ADOLYGIAD PORTFFOLIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Brif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'r Pennaeth Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD**

**Bod yr Is-bwyllgor yn cytuno ar yr argymhellion sy'n benodol i'r prosiect, fel a osodwyd yn adran 5 ac Atodiad 1 o'r adroddiad hwn yn dilyn cwblhau'r adolygiad portffolio.**

**Cymeradwyo sefydlu Rhestr Wrth Gefn fel a osodwyd yn adran 7 ac Atodiad 2 o'r adroddiad hwn, ynghyd â'r meini prawf ac amserlen ar gyfer y broses Datganiad o Ddiddordeb (EOI) i benodi prosiectau i'r rhestr wrth gefn.**

**Ychwanegu cynllun amgen Trawsfynydd ar y Rhestr Wrth Gefn ffurfiol y Cynllun Twf.**

**Bod yr Is-bwyllgor yn gofyn i'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) gytuno ar broses sicrwydd a chymeradwyo symlach gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i alluogi bod penderfyniadau ar brosiectau newydd yn cael eu gwneud mewn modd effeithiol ac effeithlon.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r penderfyniad yn ymateb i'r cais a wnaed gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Chwefror 2025 i adolygu prosiectau yn y Cynllun Twf sydd mewn perygl o beidio â chael eu cyflawni, ac i gyflwyno argymhellion clir i'w hystyried.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 12. ACHOS BUSNES LLAWN 4G+ (SAFLEOEDD A CHORIDORAU ALLWEDDOL CYSYLLTIEDIG)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Rhaglen Ddigidol.

**PENDERFYNWYD**

**Bod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect 4G+ (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig) gan nodi y bydd cyfnod cychwynnol dyluniad y cynllun grant ar ôl cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn angen asesiad rheoli cymhorthdal terfynol o'r Cynllun Cymhorthdal arfaethedig.**

**Bod y Is-Bwyllgor Lles Economaidd yn dirprwyo’r hawl i’r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar ddyluniad terfynol y cynllun grant.**

**Bod yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd yn dirprwyo cyflwyno’r prosiect i’r Cyfarwyddwr Portffolio gan gynnwys dyfarniadau grant unigol dilynol yn unol â’r cynllun grant terfynol hyd at £500,000.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-Bwyllgor o'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y Prosiect 4G+ (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig).

Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect ar 15 Mawrth 2024. Yn dilyn hynny, derbyniodd y prosiect gymeradwyaeth y broses sicrwydd gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn galluogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio i symud ymlaen gyda datblygu'r Achos Busnes Llawn.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 12:15.

Cadeirydd